

23% o'r gweithgaredd sy'n berthnasol i'r sector Tir Âr:

MAE **748** O'R BUSNESAU WEDI COFRESTRU GYDA CYSWLLT FFERMIO YN DOD O'R SECTOR TIR ÂR



Grwpiau Trafod

CYNHALIWIYD
28 CYFARFOD GRŴP TRAFOD YN YMWNEUD Â'R SECTOR ÂR
 gyda **233** O FNYCHWYR

Tir âr heb ei drin

Roedd grŵp trafod tir âr yng Ngorllewin Cymru yn canolbwyntio ar ffermio tir âr heb ei drin ac ymunodd ffermwr pridd y flwyddyn 2018, Simon Cowell, â nhw.

Dangosodd Simon luniau o gae gwair bach sydd ganddo nad yw wedi cael unrhyw fewnbynau am nifer o flynyddoedd, ond eto mae'n dal i roi cnwd o wair bob blwyddyn, ac esboniodd Simon bod hyn yn rhoi hyder iddo bod y pridd ei hun, os gofelir amdano, yn gallu darparu llawer o'r hyn sydd ar y cnwd ei angen.

Yn dilyn trafodaeth am y pridd yn y cae gwair, dangosodd Simon ddau lun yn cymharu proffil y pridd ar ei gaeau tir âr yn 2005 a 2017. Roedd gwahaniaeth sylweddol yn y priddoedd gyda phridd 2017 yn edrych yn llawer iachach gyda gwell strwythur i'r pridd, mwy o bridd uchaf, mwy o gynnwys deunydd organig. Un pwynt diddorol a godwyd gan Simon am y pridd yn 2017 oedd y darnau tywyll yn is i lawr ym mhroffil y pridd. Esboniodd Simon mai deunydd organig oedd hwn yn cael ei dynnu i lawr trwy broffil y pridd gan y pryfed genwair; gan brofi ei fod yn bridd iach a biolegol weithredol. Pwysleisiodd Simon hefyd bod gwahaniaethau trawiadol i'w gweld wrth reoli'r tir fel gwell draeniad a mwy o gyfle i fynd i'r caeau oherwydd y draeniad gwell ac felly, gwell hygyrchedd.

Nododd Simon egwyddorion sylfaenol y system dim trin y mae'n ei gweithredu oedd yn cynnwys y canlynol:

- Dim trin
- Haneru'r defnydd o nitrogen (N) trwy newid cnydau, e.e. codau, hadau llin, cnydau gwanwyn
- Heb ddefnyddio ffosfforws (P) a potasiwm (K) ers 20 mlynedd
- Lleihau cemegolion pan fydd yn bosibl
- Cnydau mewnbwn isel
- Inocwleiddio gyda chompost cartref

Trafodwyd y technegau drilio a'r offer yn benodol y cyfleoedd i ddrilio'n uniongyrchol gyda dril pigyn a dril disgiau.

Dril pigyn

- Gwell ar gyfer gwellt wedi ei falu
- Mwy tebygol o dagu mewn sofrl hir
- Llai o faeddu ar bridd gwlyb
- Angen llai o bwysau

Dril disgiau

- Amharu llai ar y pridd
- Gwell ar gyfer gwellt hir a gorchudd mawr
- Rheoli dyfnder yn fwy cywir
- Baeddu'r slotiau

Daeth Simon â'r cyfarfod i ben trwy gymharu costau peiriannau, y costau mewnbwnau, cyfanswm y costau a'r elw net ar gyfer dim Nitrogen, dim trin a systemau confensiynol a phwysleisiodd ei fod yn teimlo y gellir cael mwy o elw yn y system fiolegol heb drin mewn cymhariaeth ag un organig oherwydd y costau is.

Y Rhwydwaith Arddangos

Pantyderi: Meincnodi Maetholion Grawn YEN

Mae'r Rhwydwaith Gwella Cynnyrch (YEN) yn cysylltu sefydliadau amaethyddol a ffermwyr sy'n ymdrechu i wella cynnyrch cnydau gyda'r nod o gau'r bwllch rhwng y cynnyrch presennol a'r potensial o ran cynnyrch.

Daeth yr angen am ddadansoddi grawn fel rhan o'r patrwm yn gynyddol amlwg gyda phroffil grawn o dros 900 sampl o ffermwyr YEN dros y pedair blynedd ddiwethaf yn datgelu bod 74% o gnydau grawn yn ddiffygiol o ran o leiaf un maetholyn. Mae hyn yn dynodi, er gwaethaf ymdrechion gorau llawer o dyfwr; bod maethiad yn cyfyngu potensial llawn eu cnydau.

Mewn pryd ar gyfer cynhaeaf 2020, lansiodd ADAS gynllun YEN newydd dan yr enw 'YEN Nutrition' i gefnogi'r rhai sy'n gobeithio gwella maethiad cnydau tir âr. Mae YEN Nutrition, sydd ar gael i bawb yn y Deyrnas Unedig a thramor; yn rhoi dadansoddiad grawn cynhwysfawr ar y 12 maetholyn hanfodol i'r cnwd ac yn rhoi cyfle i'r rhai sy'n cymryd rhan osod meincnod ar gyfer perfformiad maethol eu cnydau mewn cymhariaeth â thyfwr eraill.

Anfonwyd samplau o rawn i gael dadansoddiad maetholion wrth gynaeafu yn 2020 o chwe chae ar safle arddangos Pantyderi. Er mwyn cynyddu cyfanswm y data a hwyluso meincnodi mewn cymhariaeth â chnydau a dyfir ar yr un pryd yn yr ardal, cymrwyd samplau o chwe chae grawn gan bum tyfwr grawn arall yn yr ardal.


Yna meincnodwyd y canlyniadau trwy'r adnodd Maeth Grawn YEN, ar gyfer y chwe fferm sy'n cymryd rhan i gychwyn, ac yna mewn cymhariaeth â samplau o rawn wedi eu cynaeafu yn genedlaethol.

Dengys y prif ganlyniadau cenedlaethol ar gyfer cynhaeaf 2020:

- Y diffyg sy'n cael ei nodi yn fwyaf cyffredin yw ffosfforws
- Mae potasiwm yn llai diffygiol nag yn y blynyddoedd diwethaf
- Mae manganis yn ddiffygiol yn fwy cyffredin nag mewn blynyddoedd blaenorol

Dangosodd canlyniadau grŵp Sir Benfro:

- Bod y maethiad nitrogen yn gyffredinol yn rhy hael ac yn eithafol weithiau
- Dangosodd un fferm lefelau sylffwr isel ar draws yr holl gaeau a ddadansoddiwyd tra'r oedd ffermydd eraill yn foddhaol o ran sylffwr
- Roedd manganis hefyd yn ymddangos yn isel ar y rhan fwyaf o'r ffermydd oedd yn tyfu barlys



Ffigwr 1. Hau hadau glaswellt dan y cnwd india corn (2 Gorffennaf 2021)

Dylai'r lefelau fod o fewn y cylch coch

Bydd y wybodaeth hon yn werthfawr wrth helpu i ffurfio cynllun maetholion addas ar gyfer cnydau grawn ar y ffermydd hyn ar gyfer y tymor nesaf, gan helpu i wella cnydau, arbed costau diangen a chynnig deilliant amgylcheddol gwell.

Adroddiad Meincnodi YEN Pantyderi.

Pant Farm: Hau glaswellt o dan gnwd india corn i sicrhau buddion amgylcheddol ac economaidd

Yn Nenmarc, mae hadau glaswellt bellach yn cael eu hau o dan filoedd o hectarau o india corn, ac mae gwaith arbrofi helaeth yno wedi darparu canllawiau ynghylch sut i sefydlu'r glaswellt yn dda. Fferm tir â'r yw fferm Pant yn Llanwytherin, Y Fenni sydd yn edrych a'r hau india corn dan gnwd trwy ddefnyddio dril wedi ei haddasu.

Beth yw'r manteision?

- Mae'n lleihau erydiad pridd
- Mae'n cynyddu ffrwythlondeb
- Mae'n cynyddu deunydd organig
- Mae'n cynnal maetholion yn y pridd (+/- 40kg/ha N a K)
- Mae'n gwella strwythur y pridd.
- Mae'n haws paratoi gwelyau hau yn y gwanwyn
- Arferion da o ran traws-gydymffurfiaeth
- Mae'n darparu cyfle i bori yn y gaeaf/gwanwyn (> 1,500 o ddiwrnodau pori mamogiaid neu >300 o ddiwrnodau pori heffrod)

Sefydlu'r cnwd gorchudd o dan y cnwd india corn

Y cyfnod targed i hau cnydau gorchudd o dan gnydau india corn yw'r cyfnod o un wythnos ar ôl chwalu chwynladdwr am y tro cyntaf hyd at y cyfnod pan fydd y cnwd tuag uchder y glun yn gynnar ym mis Gorffennaf. Dylai planhigion y cnwd india corn fod wedi cynhyrchu rhwng pedwar a deg deilen erbyn hyn.

Bydd y gwaith cynnar yn golygu naill ai chwalu'r had gwair ar y ddaear neu eu chwalu â'u hogedu gan ddefnyddio cribin â phigau dur; gall hyn fod yn effeithiol pan fydd glaw yn dilyn, ond bydd yn llawer llai dibynadwy pan fydd hi'n sych. Gwnaed y gwaith drilio cychwynol gan ddefnyddio dril wedi'i haddasu i sicrhau sribedi o laswellt rhwng y rhesi o india corn (mae driliau pwrpasol yn cael eu cynhyrchu erbyn hyn).

Beth fydd yn cael ei wneud

Mae cae 5 hectar (ha) wedi'i leoli ar lethr ac wedi'i hau ag india corn Augustus wedi cael ei ddewis oherwydd mae'n llai tebygol o ddiodesf erydiad pridd os caiff ei adael heb gnwd dros y gaeaf. Y nod cyffredinol fydd sefydlu rhwydwaith o wreiddiau erbyn adeg y cynhaeaf i sefydlu'r pridd a chario traffig, gan leihau unrhyw ddŵr ffo ac erydu posibl ar adeg y cynhaeaf ac yn ystod y gaeaf.

Caiff pedair llain arbrofol eu sefydlu trwy hau hadau gwair o dan y cnwd india corn ar ddiwedd Mehefin/dechrau Gorffennaf gan ddefnyddio cribyn pigau Zocon.

Yn dilyn cynaeafu'r india corn, caniateir i'r gorchudd glaswellt gynyddu a chael ei bori gan ddefaid yn cael eu cadw ar dac o fis Tachwedd ymlaen, a chedwir cofnod o nifer y diwrnodau pori a gyflawnir.



Ffigur 2. Hau hadau glaswellt dan y cnwd india corn (2 Gorffennaf 2021)

Digwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r rhwydwaith arddangos



3.12.20 Meincnodi Maetholion Grawn YEN

Gweminar agored i gyflwyno canlyniadau maetholion grawn cenedlaethol



17.12.20 Meincnodi Maetholion Grawn YEN

Cyfarfod Zoom i grŵp Sir Benfro i drafod a dehongli eu canlyniadau



23.7.21 Mathau grawn treftadaeth-addasu eu hagronomi i fodloni'r galw

Cyfarfod ar y fferm i gyflwyno canlyniadau prosiect EIP yng Nghymru ar dyfu grawn

Mentora

MAE **17** O'R RHAI SY'N CAEL EU MENTORA DIR ÂR AC MAENTYN CAEL EU MENTORA AR FATERION TIR ÂR.



Y pynciau a drafodwyd:

Cefnogaeth fentora i edrych ar y dewis o dyfu betys porthi ar y fferm



Cefnogaeth fentora i edrych ar gynhyrchu silwair aml-doriad



Agrisgôp

MAE **31** O'R CYFARFODYDD WEDI BOD YN YMWNEUD Â'R SECTOR TIR ÂR

Rhai enghreifftiau o themâu'r grŵp:




Hyfforddiant

Cafwyd **5** cyfnod ymgeisio rhwng mis Hydref 2020 a Medi 2021 (heb gynnwys ailgeisiadau am Covid) gyda **866** achos o hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn ystod y cyfnod.

O'r nifer hwn, roedd **81** o'r achosion o'r sector â'r:

Nifer yr unigolion a dderbyniodd hyfforddiant o'r sector â'r



E-ddysgu

Rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn yn ymwneud â'r sector â'r:

GWELLA IECHYD Y PRIDD



DIOGELWCH PLALEIDDIAID



RHEOLI CHWYN



Am ragor o fanylion ynghylch ag e-ddysgu, ewch i'r [wefan](#).

Cyrsiau



Cwrs plaladdwyr

Dyfarniad Lefel 2 Defnyddio Plaladdwyr yn Ddiogel (PA1) a Defnyddio Plaladdwyr gan ddefnyddio Offer Chwistrellu Bŵm wedi'i osod ar Gerbyd (PA2).